

Aros yn Iach Gartref

Prosiect E-TEC Gwent

Taflen Wybodaeth

Pwy yw Pwy?

Mae Aros yn Iach Gartref - Prosiect E-TEC Gwent newydd yn wasanaeth monitro nad yw'n ymwthiol am ddim sy'n cael ei brofi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) mewn partneriaeth â darparwr monitro cartrefi clyfar, HOWZ. Nod y system hon yw helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth trwy gefnogi pobl i gadw'n fwy diogel gartref am hirach. Mae tîm y prosiect yn cynnwys aelodau o staff o Wasanaeth Asesu'r Cof Blaenau Gwent a HOWZ.

Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi a pham?

Mae Prosiect Aros yn Iach Gartref - E-TEC Gwent yn darparu gwasanaeth gofal digidol rhagweithiol i bobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia ac sy'n byw gyda'r cyflwr gan alluogi ffordd annibynnol o fyw. Mae'r prosiect yn darparu pecynnau sy'n seiliedig ar dechnoleg i alluogi monitro iechyd a lles yng nghartref yr unigolyn.

Mae hwn yn wasanaeth newydd pwysig sydd wedi'i gynllunio i dawelu meddyliau pobl yn ystod cyfnod anodd a helpu i nodi arwyddion o salwch yn gynt, fel bod cyngor a chymorth prydlon yn cael eu rhoi.

Bydd dyfeisiau a ddarperir yn mesur trefn ddyddiol, tymheredd, pwls a dirlawnder ocsigen gwaed pobl fel dangosyddion allweddol. Yn benodol, bydd casglu marcwyr gwrthrychol o les ynghyd ag adroddiadau goddrychol yn barhaus yn arwain at rybuddion i dîm y prosiect lle nodir newidiadau sylweddol.

Lle canfyddir newid, bydd tîm y prosiect, sy'n cael ei gefnogi gan glinigwyr, yn cysylltu â'r unigolyn drwy gyswllt ffôn neu fideo er mwyn asesu'r sefyllfa ymhellach. Bydd y rheiny sydd â symptomau difrifol ac sy'n gwaethygu'n cael eu hailgyfeirio i'r tîm angenrheidiol, h.y., y Gwasanaeth Meddyg Teulu neu'r Gwasanaeth Asesu'r Cof, ymhlith eraill.

Pa ddyfeisiau fyddaf yn eu derbyn a sut byddant cael eu defnyddio?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich anghenion, bydd pecynnau pwrpasol i gyd-fynd ag anghenion unigol. Mae'r canlynol yn rhestr o'r dyfeisiau monitro o bell digidol y gallwch eu derbyn:

- Dyfeisiau clinigol rhyngweithiol a fydd yn monitro tymheredd y corff, dirlawnder ocsigen y gwaed a phwls. Bydd angen i'r unigolyn neu ofalwr gymryd y rhain a chyflwyno'r canlyniadau.
- Mae synwryddion symudiadau, sy'n mesur symudiadau fel bod modd nodi newidiadau sylweddol, yn cael eu rhoi yn y cartref. Er enghraifft, gallai swm sylweddol llai o symudiadau ddangos bod person wedi dod yn sâl.
- Synhwyrdd drws ar ddrws ffrynt neu ddrws cefn y cartref. Gall hyn helpu i nodi a yw rhywun wedi gadael y cartref neu ddod i mewn iddo ac a yw patrymau symud rheolaidd wedi newid.
- Plwg clyfar wedi'i atodi i'r eitem drydanol a ddefnyddir amlaf yn y gegin i nodi a yw person yn dilyn patrymau ymddygiad arferol ar gyfer bwyta ac yfed.
- Llechen sy'n galluogi person i gofnodi a gweld ei ddarlleniadau, rhyngweithio â thîm y prosiect ac ateb holiadur byr iawn am ei iechyd a'i les yn rheolaidd.

Am ba hyd fyddaf yn defnyddio'r dyfeisiau?

I ddechrau, bydd y prosiect yn cael ei gynnig am hyd at flwyddyn, yna bydd yn cael ei adolygu wedyn.

Oes rhaid i mi fod yn rhan o'r prosiect?

Nac oes. Eich dewis chi yw hi o ran a hoffech chi fod yn rhan o'r prosiect. Mae'n ychwanegiad at eich gofal arferol, na fydd hyn yn cael ei effeithio.

Os ydych, ar unrhyw adeg, yn penderfynu peidio â bod yn rhan o'r prosiect ni fydd eich penderfyniad mewn unrhyw ffordd yn peryglu eich hawliau a safon y gofal y byddwch yn ei dderbyn.

Allaf newid fy meddwl?

Gallwch. Rydych yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm i ni. Os ydych chi'n dewis tynnu'n ôl, ni fydd hyn yn effeithio ar eich gofal mewn unrhyw ffordd.

Beth ydych chi'n ei wneud gyda fy ngwybodaeth bersonol?

Bydd eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, rhif GIG, a gwybodaeth debyg arall) yn cael eu defnyddio gan dîm y prosiect i gadw mewn cysylltiad â chi.

Os bydd un o'r dyfeisiau sydd gennych yn eich cartref yn ein hysbysu o symptom neu sefyllfa a allai fod yn destun pryder, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gysylltu â chi.

Pwy all weld fy ngwybodaeth bersonol a'r data rydych yn ei gasglu gen i?

Bydd gan aelodau o dîm y prosiect fynediad at eich gwybodaeth bersonol er mwyn ein galluogi i gynnig cymorth i chi.

Mae'r wybodaeth a gesglir gan y dyfeisiau yn eich cartref yn cael ei monitro ar ddangosfwrdd digidol gan dîm y prosiect sy'n monitro eich iechyd a'ch lles o bell. Bydd hefyd yn gyfrifol am gynnal y dangosfwrdd.

Sut ydw i'n gwybod y bydd fy phreifatrwydd yn cael ei ddiogelu?

Bydd unrhyw wybodaeth a data personol yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae'r holl wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu â HOWZ yn cael ei storio ar weinyddion diogel a gymeradwyir gan y GIG. Dim ond drwy borthol trosglwyddo diogel yr ydym yn rhannu'ch gwybodaeth. Bydd data sy'n cael ei gasglu'n electronig, fel trwy'r dyfeisiau yn eich cartref, yn cael ei storio mewn cronfeydd data cyfrifiadurol diogel y rheolir mynediad atynt na all unrhyw un ond aelodau o dîm y prosiect gael mynediad atynt. Mae gan BIPAB a HOWZ eu hysbysiadau preifatrwydd eu hunain, os ydych am gael mwy o wybodaeth yna ewch yma: <https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/llywodraethu-gwybodaeth/>

Beth sydd yn fy nghofnodion?

Eich gwybodaeth bersonol (e.e., manylion cyswllt, dyddiad geni, rhif GIG, cyswllt meddyg teulu) yn ogystal â data a gesglir gan y dyfeisiau monitro o bell. Bydd y data hwn yn cael ei ychwanegu at eich Cofnod Iechyd BIPAB os oes angen.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu fy nata?

Cyfeiriwch at hysbysiadau preifatrwydd BIPAB a HOWZ os ydych am gael mwy o wybodaeth. Gallwch eu gweld yma:

BIPAB - <https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/llywodraethu-gwybodaeth/>

HOWZ - <https://www.howz.com/pages/howz-privacy-policy>

Am faint fyddwch chi'n cadw fy nghofnodion?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth fel rhan o'ch cofnod iechyd cyffredinol yn ein Bwrdd Iechyd yn unol â Pholisi Rheoli Cofnodion Iechyd BIPAB. Bydd pob cofnod Iechyd Meddwl yn cael ei gadw am 20 mlynedd neu 8 mlynedd ar ôl marwolaeth.

Ar bwynt terfynu'r gwasanaeth, bydd Howz yn tynnu'r ffugenw o'ch cofnodion nad oes modd eu hadnabod gan felly'n dienwi eich data. Bydd unrhyw ddata personol a gedwir gan Howz yn cael ei ddileu ar ôl ei drosglwyddo i BIPAB i'w gadw yn unol â pholisi.

Tynnu Cydsyniad yn ôl

Gallwch ddileu mynediad i'r rheiny rydych yn rhannu data â nhw ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Gwasanaeth Aesu'r Cof Blaenau Gwent neu dîm HOWZ.

Beth yw fy hawliau o ran y data sydd gennych arnaf?

Gweler yr Hysbysiadau Preifatrwydd yn:

BIPAB - <https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/llywodraethu-gwybodaeth/>

HOWZ - <https://www.howz.com/pages/howz-privacy-policy>

Angen manylion pellach am sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch?

Gweler yr Hysbysiadau Preifatrwydd yn:

BIPAB - <https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/llywodraethu-gwybodaeth/>

HOWZ - <https://www.howz.com/pages/howz-privacy-policy>

Beth os oes gen i gwestiynau pellach?

Cysylltwch â thîm HOWZ ar 0203 86 86 850.

Beth os ydw i'n anhapus neu'n dymuno gwneud cwyn?

Os ydych yn anhapus unrhyw bryd ac yn dymuno cwyno'n ffurfiol, gallwch gysylltu â'r:

Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Ysbyty Sant Cadog
Lodge Road
Caerllion
NP18 3XQ

Ffôn: 01495 745656

E-bost: Puttingthingsright.ABHB@wales.nhs.uk

Gellir cael manylion o <https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/cwynion-a-phryderon/>

Diolch am ddarllen y daflen wybodaeth hon.